

## **CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 8fed Mai 2017**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 8th May 2017**

### **Yn Bresennol/Present:**

Cynghorwyr/Cllrs Tom Cowcher, Beth Davies, Douglas Davies, Keith Evans, Andrew Howell, Gethin Jones, Abby Reid a Chyng Sir/County Cllr Peter Davies

### **PCSO**

Cafwyd neges e-bost gan PCSO Melanie Davies yn esbonio na fyddai hi'n bresennol yn y cyfarfod. Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Keith Evans bod PCSO Shan Davies wedi cael merch fach, a phenderfynwyd y byddai'r clerc yn anfon carden i'w llongyfarch ar ran y Cyngor Cymuned.

An email was received from PCSO Melanie Davies explaining she would not be present at the meeting. Cllr Keith Evans informed the meeting that PCSO Shan Davies had had a baby girl, it was decided that the clerk send a congratulations card on behalf of the Community Council.

- 1. Ethol Cadeirydd:-** Diolchodd Cyng Beth Davies i'r Cyngor am yr anrhydedd o gael bod yn Gadeirydd ac adroddodd ei bod wedi cael blwyddyn bleserus, a diolchodd i bawb am eu cyfeillgarwch a'u gwaith caled. Diolchodd y Cynghorwyr i'r cadeirydd a oedd yn ymddeol am gadeirio'r cyfarfodydd mor dda ac roedd pawb yn gwerthfawrogi ei gwaith caled. Yna, galwodd y cadeirydd a oedd yn ymddeol ar y Cyngor i ethol cadeirydd. Cynigiodd Cyng Keith Davies y dylid ethol yr Is-Gadeirydd, Cyng Andrew Howell, yn gadeirydd; eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Douglas Davies. Diolchodd Cyng Andrew Howell i'r Cyngor unwaith eto am gael y cyfle i fod yn gadeirydd a chanmolodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol am ei medr a'i gwaith caled
- 2. Llofnodwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan Gynnwys y Cod Ymddygiad** gan Gyng Andrew Howell. Aeth yr holl aelodau a oedd yn bresennol ymlaen i lofnodi'r datganiad Derbyn Swydd. Anfonwyd copi o'r Cod Ymddygiad at yr holl aelodau.
- 3. Ethol Is-Gadeirydd** Gofynnodd Cyng Andrew Howell i'r cyngor ethol Is-Gadeirydd. Cynigiodd Cyng Keith Evans enw Cyng Abbey Reid ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Tom Cowcher. Derbyniodd Cyng Abbey Reid a diolchodd i'r Cyngor.
- 4. Ethol Pwyllgor Cynllunio** Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i ethol yr aelodau canlynol i'r Pwyllgor Cynllunio:- Ward Capel Dewi – Cyng Tom Cowcher, Ward Tref Llandysul – Abbey Reid ac etholwyd Cyng Andrew Howell yn lle Cyng Roy Davies, Ward Tre-groes – Cyng Mrs Eileen Curry, Ward Pont-siân – Cyng Gethin Jones. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig parhaus i'r Clerc ddelio â'r ceisiadau rhwng cyfarfodydd trwy gysylltu ag aelodau perthnasol.
- 5. Ethol Pwyllgor Cyllid** Penderfynwyd ethol y canlynol i'r pwyllgor Cyllid:- Cynghorwyr Douglas Davies, Abbey Reid Evans ac Andrew Howell.
- 6. Archwilydd Mewnol** Penderfynwyd y dylai Mr R J Foulkes barhau i gyflawni rôl yr Archwilydd Mewnol.
- 7. Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol:-** Penderfynwyd y dylai Cyng Aled Jones barhau i gyflawni'r rôl Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol.
- 8. Asesiad Risg** Mae camau priodol wedi cael eu cymryd er mwyn rheoli Rheolaeth Fewnol/Asesiad Risg ac adolygiad o'r Yswiriant.
- 9. Cael Datganiad Cyfrifon** Cynigiodd Cyng Andrew Howell y dylem dderbyn bod y Cyfrifon

- 1. Election of Chair:-** Cllr Beth Davies thanked the Council for the privilege of being Chair and reported that he had an enjoyable year and thanked all for their friendship and hard work. Councillors thanked the retiring chair for chairing the meetings so well and her hard work was appreciated by all. The retiring chair then called upon the Council to elect a chair. Cllr Keith Evans proposed Vice-Chair, Cllr Andrew Howell as chair; this was seconded by Cllr Douglas Davies. Cllr Andrew Howell thanked the Council again for the chance of being chair and complemented the retiring Chair for her proficiency and hard work
- 2. Declaration of Acceptance of Office to Include Code of Conduct** was signed by Cllr Andrew Howell. All members that were present signed a declaration of Acceptance to Office. A copy of the Code of Conduct was sent to all members.
- 3. Election of Vice Chair** Cllr Andrew Howell called upon the council to elect a Vice-Chair. Cllr Keith Evans proposed Cllr Abbey Reid this was seconded by Cllr Tom Cowcher. Cllr Abbey Reid accepted and thanked the Council.
- 4. Election of Planning Committee** It was unanimously resolved to elect the following Planning Committee:- Capel Dewi Ward - Cllr Tom Cowcher, Llandysul Town Ward – Abbey Reid and Cllr Andrew Howell was elected instead of Cllr Roy Davies, Tregoes Ward - Cllr Mrs Eileen Curry, Pontsian Ward – Cllr Gethin Jones. Continued delegated authority was given to the Clerk to deal with the applications between meetings by contacting the relevant members.
- 5. Election of Finance Committee** It was resolved to elect the following Finance committee:- Cllrs Douglas Davies, Abbey Reid Evans and Andrew Howell.
- 6. Internal Auditor** It was resolved that Mr R J Foulkes continues as Internal Auditor.
- 7. Internal Control/Internal Checker:-**It was resolved that Cllr Aled Jones continues as Internal Control/Internal Checker.
- 8. Risk Assessment** Appropriate steps to manage Internal Control/Risk Assessment and review of Insurance have been taken.
- 9. To Receive Statement of Accounts** Cllr Anderw Howell proposed that we accept the Accounts as a true record of the Council's transactions over the year this was seconded by Cllr Abbey Reid and carried. It was decided that we needed to take extra care not to spend more than our precept in one financial year. The clerk had produced a proposed budget for the new financial

yn gofnod cywir o drafodion y Cyngor dros y flwyddyn hon ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Abbey Reid ac fe'i derbyniwyd. Penderfynwyd bod angen i ni gymryd gofal arbennig na fyddwn yn gwario swm sy'n uwch na'n praesept mewn un blwyddyn ariannol. Roedd y clerc wedi paratoi cyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Penderfynwyd y dylid newid rhai o'r ffigurau ynghylch y rhoddion, a'u cymeradwyo yn ystod y cyfarfod nesaf.

**10. Seddi Gwag** Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir er mwyn cael arweiniad am y cam o lenwi'r 2 sedd wag yn Ward Llandysul a'r 1 sedd wag yn Ward Pont-siân.

11. Cafwyd **Ymddiheuriadau** gan Gynghorwyr Eileen Curry ac Aled Jones a Llŷr Jones.

**12. Datgelu Buddiannau** Cafwyd ffurflen newydd gan Gyngor Sir Ceredigion er mwyn cofnodi gweithgarwch datgelu Buddiannau a phenderfynwyd y dylai'r Cyngor Cymuned fabwysiadu'r ffurflen newydd.

Datgelwyd Budd gan Gynghorwyr Beth Davies ac Abbey Reid mewn perthynas â Charnifal Llandysul, a chan Gynghorwyr Beth Davies, Gethin Jones a Tom Cowcher mewn perthynas â Phapur Triawd y Cardi.

13. Derbyniwyd bod **Cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd ar ôl ychwanegu dan Faterion Wardiau bod Baedd Gwyllt wedi cael eu gweld yng Nghoed Llanfair.

**14. Materion yn Codi:- Cyfryngau Cymdeithasol** Penderfynwyd cynnwys y mater hwn ar agenda cyfarfod fis nesaf, er mwyn ei drafod.

**Arwyddion Baw Cŵn** Esboniodd Cyng Keith Evans bod y gwaith ar y mater yn parhau. **Tyllau yn y ffordd**

Esboniodd Cyng Andrew Howell bod y tyllau yn y ffordd o Deras y Porth i Fferyllfa Hills wedi cael eu llenwi, ond bod y gwaith a wnaethpwyd o safon gwael. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto.

**15 Grant Thornton –** Cafwyd ffurflen y **Datganiad Blynyddol** ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/17. Penderfynwyd y dylai'r Cyngor Cymuned ei chymeradwyo

**Adran 1** – Roedd y **Datganiadau Cyfrifyddu** yn ddadansoddiad o'r ffigurau a gymeradwywyd dan "9" uchod a llofnodwyd yr **Ardystiad cyn archwilio** gan y Clerc. Yn ogystal, llofnodwyd y **Cadarnhad cyn archwilio** gan y Cadeirydd a'r Clerc. **Adran 2** – Penderfynwyd cymeradwyo'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**. Mae hysbysiad i'r cyhoedd

year. It was decided that some of the donation figures be changed for approval at next meeting.

**10. Vacant Seats** It was decided that the clerk contact the County Council for guidance with regards to filling the vacant seats 2 in Llandysul Ward and 1 in Pontsian Ward.

**11. Apologies** were received from Cllrs Eileen Curry and Aled Jones and Llŷr Jones.

**12. Declarations of Interest** A new form to record declarations of Interest had been received from Ceredigion County Council it was decided that the Community Council adopt the new form.

Declarations of Interest were shown by Cllrs Beth Davies and Abbey Reid to Llandysul Carnival, Cllrs Beth Davies Gethin Jones and Tom Cowcher to Papur Triawd y Cardi.

**13. Minutes** of the monthly meeting held on 10th April 2017 were accepted as correct and signed by the Chair following adding in Ward Matters that Wild Boar had been spotted in Llanfair Woods.

**14. Matters Arising:- Social Media** It was decided to place the matter on next month's agenda for discussion.

**Dog Fouling Signs** Cllr Keith Evans explained that the matter was still ongoing. **Potholes**

Cllr Andrew Howell explained that the potholes in the road from Porth Terrace to Hills Pharmacy had been filled but to a poor standard. It was decided that the clerk contact the County Council

again.

**15 Grant Thornton – Annual Return** form for the year ended 31/03/17 was received. It was resolved that the Community Council approve

**Section 1 – Accounting Statements** being a breakdown of the figures approved under "9" above and the **Certification prior to audit** was signed by the Clerk. Also, **Confirmation prior to audit** was signed by the Chair and Clerk.

**Section 2** – It was resolved to approve of **The Annual Governance Statement**. Notice to the public informing that the records are available for inspection has been displayed. Internal Auditor and Internal Checker have also checked the accounts.

**16 Donations**

(iii) **Papur Triawd y Cardi** £400 donation was requested to create a Local newsletter for Pontsian, Capel Dewi and Tregroes. It was decided to donate the requested amount.

(iv) **Llandysul Carnival** £500 donation was requested in order to get a brass band to lead the carnival procession. It was decided to donate the

sy'n eu hysbysu o'r ffaith bod y cofnodion ar gael i'w harchwilio wedi cael ei arddangos. Mae'r Archwilydd Mewnol a'r Gwiriwr Mewnol wedi archwilio'r cyfrifon hefyd.

## **16 Rhoddion**

- (i) Papur Triawd y Cardi Gofynnwyd am rodd o £400 er mwyn creu cylchlythyr Lleol ar gyfer Pont-siân, Capel Dewi a Thre-groes. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.
- (ii) Carnifal Llandysul Gofynnwyd am rodd o £500 er mwyn talu am fand pres i arwain gorymdaith y carnifal. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano gan bod y carnifal yn ddigwyddiad lleol mor bwysig i'r Gymuned.

Cafwyd llythyr gan Ysgol Bro Teifi yn diolch i'r Cyngor am ei rodd caredig o £300 tuag at brynu gwisgoedd dawnsio ar gyfer y plant, er mwyn iddynt allu cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Cafwyd llythyr gan Gofal Canser Tenovus yn mynegi eu diolch am rodd y Cyngor o £100.

Yn ogystal, cafwyd llythyr o ddiolch gan Glwb Hoci Llandysul yn diolch i'r Cyngor am ei rodd hael, ynghyd ag amlinelliad byr o'r hyn a ddigwyddodd yn y Clwb y llynedd. Penderfynwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu llythyr at y clwb i'w llongyfarch ar eu llwyddiant yn ystod y Flwyddyn ddiwethaf.

Penderfynwyd y dylai'r clerch ysgrifennu at Glwb Pêl-droed Llandysul hefyd, i'w llongyfarch nhw hefyd ar eu llwyddiant.

## **17 Gohebiaeth**

Cafwyd y canlynol gan Geredigion:-

ULIC/SLCC – Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerch ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 9 Ebrill a 7 Mai 2017.

Cafwyd copi o gylchgrawn The Clerk.

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod Ardal Ceredigion a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2017. Roedd Cyng Abbey Reid wedi mynychu hwn ar ran y Cyngor. Cafwyd llythyr gan ULIC yn cadarnhau ein bod yn aelodau ar gyfer 2017-18.

Penderfynwyd y dylid ymuno ag SLCC unwaith eto eleni, ac roedd y clerch wedi cael gwybodaeth.

Llafur Cafwyd llythyr gan Eluned

Morgan AC yn gofyn a fyddai modd arddangos poster ar hysbysfyrdau'r Cyngor, ac roeddent wedi cael eu dosbarthu.

requested amount as the carnival is such an important local event for the Community.

A letter was received from Ysgol Bro Teifi thanking the Council for their kind donation of £300 towards buying dance costumes for the children to compete in the National Urdd Eisteddfod.

A Letter from Tenovus Cancer Care expressing their gratitude for the Councils donation of £100.

A Letter of thanks was also received from Llandysul Hoci Club thanking the Council for their generous donation with a brief outline of what had happened in the Club in the last Year. It was decided that the Clerk write a letter to congratulate the club on their success in the past Year.

It was also decided that the clerk write to Llandysul Football Club to congratulate them also on their success.

## **17 Correspondence**

The following were received from Ceredigion:-

OVW/SLCC – Emails – A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 9<sup>th</sup> April – 7 May 2017 was tabled.

A copy of the Clerk magazine was received. Notice of the Ceredigion Area Meeting held On 26th April 2017 was received, Cllr Abbey Reid was in attendance on behalf of the Council. A letter was received from OCW confirming that we were members for 2017-18.

It was decided to join the SLCC again this year and an information had been received by the clerk.

Labour A letter was received from Eluned Morgan AM/AC asking for a poster to be displayed on the Council's noticeboards which were distributed.

Wales Audit Office:- A letter was received explaining the Audit Fees in relation to the 2015-16. Cllr Keith Evans wanted to congratulate the clerk for completing the 2015-16 accounts without any major errors.

### Play for Wales

Play for Wales newsletter was received and noted.

### Dyfed Powys Police

Letter was received from Stephen Davies Chief Inspector of Dyfed Powys Police. It was Decided that the clerk invite him to one of our

**Swyddfa Archwilio Cymru:-** Cafwyd llythyr yn esbonio'r Ffioedd Archwilio mewn perthynas â 2015-16. Roedd Cyng Keith Evans yn dymuno llongyfarch y clerc am gwblhau cyfrifon 2015-16 heb unrhyw gamgymeriadau mawr.

#### **Chwarae i Gymru**

Cafwyd cylchlythyr Chwarae i Gymru ac fe'i nodwyd.

#### **Heddlu Dyfed Powys**

Cafwyd llythyr gan Stephen Davies Prif Arolygydd Heddlu Dyfed Powys. Penderfynwyd y dylai'r clerc ei wahodd i un o'n cyfarfodydd.

#### **Anfonebau**

**Ron Foulkes** – Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 31 Mawrth 2017 wedi cael eu harchwilio ac y canfuwyd eu bod yn gywir ar sail y wybodaeth a roddwyd, a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic er mwyn talu'r ffi o £50. Roedd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees, fel y gwiriwr mewnol, wedi archwilio'r cyfrifon trwy gydol y flwyddyn hefyd.

**Llinos Jones** – Cafwyd anfoneb am y swm o £140.95 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Ebrill a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic i'w Thalu.

### **18. Materion Wardiau**

**Llandysul** Roedd un darn o'r offer chwarae yn y parc wedi cael ei ddifrodi a phenderfynwyd y dylai Cyng Beth Davies gysylltu ag Euros Morris a gofyn iddo fwrw golwg arno.

Roedd graffiti wedi cael ei chwistrellu yn y parc a phenderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn a oes ganddynt ddeunydd sy'n gwrthsefyll graffiti er mwyn cael gwared ar y paent oddi ar hysbysfwrdd y cyngor. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r PCSO er mwyn gweld a fyddai modd cynnal archwiliadau mwy rheolaidd yn y parc.

**Maesymeillion** Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â Carolyn Reed-Rees er mwyn gofyn pwy sy'n cadw'r allweddi ar gyfer yr hysbysfwrdd ym Maesymeillion.

**Tre-groes/Pont-siân** Adroddodd Cyngorydd Sir Peter Davies bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi lladd rhai o'r ceirw a'u bod wedi cynnal profion TB arnynt. Byddai'n cymryd ychydig fisoedd i gael y canlyniadau. Unwaith eto, adroddodd Cyng Tom Cowcher bod baedd gwyllt wedi cael eu gweld yng Nghapel Dewi.

**Pont-siân** Bydd Cyng Beth Davies yn cysylltu ag Euros Morris ynghylch yr hysbysfwrdd.

**Capel Dewi** Esboniodd Cyng Douglas Davies

meetings.

#### **Invoices**

**Ron Foulkes** - Confirmation was received that the accounts as at 31 March 2017 have been examined and found to be correct on the information provided and cheque passed in payment for the fee of £50. Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees as internal checker also checked the accounts throughout the year.

**Llinos Jones** – Invoice for April translation was received for the sum of £140.95 and cheque was passed for Payment.

### **18. Ward Matters**

**Llandysul** One of the play equipment in the park had been damaged it was decided that Cllr Beth Davies contact Euros Morris to check it. Graffiti had been sprayed in the park and it was decided that the clerk contact the County Council to see if they had some anti-graffiti material to get rid of the paint off the councils display board. It was decided that the clerk contact the PCSO to see if more regular checks be made in the park.

**Maesymeillion** It was decided that the clerk contact Carolyn Reed-Rees to see who had the keys to the noticeboard in Maesymeillion.

**Tregroes/Pontsiân** County Cllr Peter Davies reported that Natural Resources Wales had killed some of the deer and they now had been tested for TB. It would take some months for the results. Cllr Tom Cowcher again reported that wild boar had been spotted in Capel Dewi.

**Pontsiân** Cllr Beth Davies to contact Euros Morris with respect to the noticeboard.

**Capel Dewi** Cllr Douglas Davies explained that there were ruts at the side of the road in Capel Dewi. It was decided that the clerk report the matter to the County Council.

**19. Speeding in Llandysul** Cllrs Keith Evans and Beth Davies explained that they had been in a meeting with the police and Mr Jeremy Rundle a member of the community Speedwatch. They explained that the scheme was unable to work in Llandysul. It was reported that there is a specific problem at about 10.00 at night. It was decided to ask the PCSO to keep an eye out. An unmarked police car had been patrolling to which only one vehicle was stopped going over the speedlimit.

bod rhychau wrth ymyl y ffordd yng Nghapel Dewi. Penderfynwyd y dylai'r clerc adrodd y mater i'r Cyngor Sir.

19. **Goryrru yn Llandysul** Esboniodd Cyngorwyr Keith Evans a Beth Davies eu bod wedi bod mewn cyfarfod gyda'r heddlu a Mr Jeremy Rundle, aelod o'r cynllun Cadw Golwg ar Gyflymder yn y Gymuned. Esboniwyd nad oedd modd i'r cynllun weithio yn Llandysul. Adroddwyd bod problem sylweddol am tua 10.00 y nos. Penderfynwyd gofyn i'r PCSO gadw golwg ar hyn. Roedd car heddlu plaen yr heddlu wedi bod yn patrolio a dim ond un cerbyd a stopiwyd gan ei fod yn gyrru'n gyflymach na'r terfyn cyflymder.

20. **Lwfans y Cadeirydd** Penderfynwyd y dylai swm y lwfans aros yr un fath, sef £300.

21. **Cyflog y Clerc** – Byddai cyflog y clerc yn aros yr un fath ag yr oedd yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17.

22. **Deunydd swyddfa** Penderfynwyd y byddai modd i'r Clerc brynu inc a deunydd swyddfa angenrheidiol heb sicrhau cytundeb ymlaen llaw.

23. **Cynllunio**

Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol dan Awdurdod dirprwyedig, ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau:-

Tir oddi ar B449, Llanfihangel-ar-arth – A170315

20. **Chair's Allowance** It was decided that the allowance should remain at £300.

21. **Clerk's Salary** – The clerks wage would remain the same as 2016/17 financial year.

22. **Stationary** It was resolved that the Clerk could purchase necessary stationary and ink without prior arrangement.

23. **Planning**

The following plans were approved under delegated Authority, there were no objections:-

Land off B449, Llanfihangel ar Arth – A170315







